

Y Gyfraith

Mae Deddf Addysg 1996 yn ei gwneud yn ofynnol i rieni sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon.

Mae'r gyfraith yn dweud bod Rhieni/Gofalwyr y mae eu plant o oedran ysgol gorfodol yn absennol o'r ysgol heb reswm da yn cyflawni trosedd. Gall yr Awdurdod Addysg Lleol roi hysbysiad cosb benodedig am absenoldeb heb awdurdod.

Gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig i ddisgybl sydd wedi bod yn absennol 10 gwaith heb awdurdod oherwydd gwyliau yn ystod y tymor (mae bore a phrynhawn yn cyfrif fel absenoldebau ar wahân) o'r ysgol. Hwyr yn gyson (mwy na 10 o weithiau mewn un tymor).

Os caiff y ddirwy ei thalu o fewn 28 diwrnod, bydd yn £60. Os caiff ei thalu ar ôl 28 diwrnod, ond o fewn 42 diwrnod, bydd y ddirwy yn £120. Os na chaiff y ddirwy ei thalu'n llawn erbyn diwrnod 43, gellir cymryd camau cyfreithiol.

Er i chi efallai roi rheswm dros absenoldeb, mae angen i chi fod yn ymwybodol mai'r ysgol sy'n penderfynu os caiff yr absenoldeb ei gofnodi fel absenoldeb wedi ei awdurdodi neu heb ei awdurdodi.

Os bydd unrhyw broblemau, cysylltwch â'r ysgol ar unwaith.

Talu

Bydd trefniadau talu wedi'u nodi ar yr hysbysiad cosb ac ar wefan CBSC.

Bydd peidio â thalu hysbysiad cosb yn achosi erlyniad a ddygir o dan Adran 444 o Ddeddf Addysg 1996.

Ceir mwy o fanylion yng Nghôd Ymddygiad Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Os ydych yn poeni nad yw eich plentyn wedi mynychu'r ysgol, ffoniwch yr ysgol ar unwaith.

Os oes gennych UNRHYW bryderon am bresenoldeb, mae croeso i chi gysylltu â'r ysgol neu'r Gweithiwr Cymdeithasol Addysg/Swyddog Llês Addysg eich ysgol.

Cysylltwch â'ch Pennaeth os oes gennych eisiau rhagor o wybodaeth,

Neu **Gwasanaethau Addysg,**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adeiladau'r Llywodraeth

Ffordd Dinerth

Bae Colwyn

Conwy

LL28 4UL

Ffôn: 01492 575031/32

GWASANAETH GWAITH CYMDEITHASOL ADDYSG HYSBYSIADAU COSB

BENODEDIG

**Ar gyfer absenoldeb heb
ei awdurdodi o'r ysgol**

**Po fwyaf yw'r presenoldeb
y mwyaf yw'r cyflawniad**

**“Mae presenoldeb prydlon a
rheolaidd yn yr ysgol yn
ofyniad hanfodol ar gyfer
dysgu llwyddiannus o'r adeg y
bydd plentyn yn dechrau
ysgol”**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Gwyliau

Mae cyfanswm o 175 diwrnod di-ysgol mewn blwyddyn. Mae hyn yn rhoi cyfle i deuluoedd:

- dreulio amser gyda'i gilydd
- mynd ar ymweliadau teuluol
- mynd ar wyliau
- mynd i siopa
- mynychu apwyntiadau arferol

Nid yw disgyblion yn cael bod yn absennol oni bai bod amgylchiadau arbennig. Mae absenoldeb o'r fath yn ôl disgrisiwn y pennaeth.

Mae mynd ar wyliau yn ystod y tymor yn effeithio'n ddifrifol ar bresenoldeb eich plentyn, ac yna ar eu cyrhaeddiad.

Os bydd gwyliau heb awdurdod yn cael ei gymeryd, gall arwain at dderbyn Hysbysiad Cosb Benodedig.

Dylai presenoldeb fod yn flaenoriaeth. Cysylltwch â'r ysgol ar unwaith os oes unrhyw broblem.

Ffeithiau Presenoldeb

“ Os bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol 100% byddant yn gallu gwneud y gorau o bob cyfle sydd ar gael iddynt.”

Mae plant sy'n dda iawn am fod yn bresennol yn fwy tebygol o gael 5 TGAU A-C neu fwy neu gymhwyster tebyg.”

.....
“ Presenoldeb o 91.1% = colli 17 diwrnod o ysgol y flwyddyn

Mae colli 17 diwrnod yn golygu gostwng (ar gyfartaledd) 1 gradd TGAU.”

.....
“ Mae plant gyda phresenoldeb gwael yn llai tebygol o gael 5 TGAU A*-C.

Presenoldeb o 82.1% = colli 34 diwrnod o ysgol mewn blwyddyn.”

Bydd presenoldeb gwael yn cael effaith ddifrifol ar addysg, etheg gwaith a cyfleon mewn bywyd.

Bydd disgybl sy'n gorffen y flwyddyn ysgol gyda phresenoldeb o 90% wedi colli pedair wythnos gyfan o ysgol.

Mewn ysgol uwchradd mae 90% dros 5 mlynedd yn cyfateb i hanner blwyddyn ysgol.



O dan 92%
Colli mwy na 3 wythnos o addysg.

95%
Colli dros bythefnos o addysg.

100%
Heb golli unrhyw wersi yn ystod y tymor.

Golau Coch

Colli dysgu difrifol sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar **gyrhaeddiad** a **cyfleon bywyd** eich plentyn.

Golau Melyn

Absennol o'r ysgol am hyd at dair wythnos gan golli swm arwyddocaol o addysg.

Golau Gwyrdd

Presennol ar gyfer pob gweithgaredd gwers ac amser cymdeithasol.

Trefnwch apwyntiadau meddygol a deintyddol y tu allan i oriau ysgol, pan fo'n bosibl.